# Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y Strategaeth Gweithgynhyrchu gan Ieuan Wyn Jones, y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Mawrth 2010**

---

Mae sefydlu a chyflawni strategaeth gweithgynhyrchu glir ac effeithiol wedi bod, ac yn parhau i fod, yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth y Cynulliad. Mae dirwasgiad economaidd 2009 wedi amharu'n sylweddol ar weithgynhyrchu ar raddfa fyd-eang, ac wedi effeithio ar Gymru fel ag y gwnaeth ar bob cenedl ddatblygedig arall. Yn erbyn y cefndir hwn, croesawaf yn frwd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Menter a Dysgu a'r cyfle i ymateb i'w argymhellion.

Dylwn esbonio, fel a wnaed eisoes gennyf mewn man arall, fod Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru [y Fforwm] corff amlrannol o bartneriaid a sefydlwyd gan fy rhagflaenydd yn 2006, i greu Strategaeth Gweithgynhyrchu i Gymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn aelod o'r bartneriaeth honno, ynghyd â chyflogwyr, undebau llafur, fforymau sector, cynghorau sgiliau sector ac eraill.

Mae'r Fforwm, ar hyn o bryd, yn cwblhau adolygiad o'i Strategaeth ddrafft, a oedd yn angenrheidiol yn sgil canlyniadau'r dirwasgiad. Yr wyf yn disgwyl derbyn y drafft diwygiedig ddiwedd mis Mawrth. Carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau'r Fforwm am eu gwaith ardderchog ar ran bawb sy'n ymwneud â'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Mae rhan fwyaf yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor yn cydweddu'n dda â chyfeiriad ein polisi presennol ac, yn ôl a ddeallaf, gyda ffocws gwaith y Fforwm. Byddant hefyd yn werthfawr o ran goleuo gwaith tîm y Rhaglen o Adferiad Economaidd, yr wyf hefyd wedi'u hysbysu o waith y Pwyllgor. Yr wyf yn falch o allu derbyn y rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor heb betruso dim, ac yn amodol ar ddeall nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn bartner i'r gwaith hwn ac nad yw'n chwarae rôl gyfarwyddiadol. Yr wyf, wrth gwrs, wedi darparu copi o adroddiad y Pwyllgor i'r Fforwm i'w ystyried wrth gwblhau'r gwaith o ailddrafftio'r ddogfen. Mae Argymhelliad 9 y Pwyllgor yn ymwneud yn bennaf â chludiant, a bydd y materion sy'n codi yn cael sylw yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, a gyhoeddir yn fuan.

Mae barn gyffredin rhwng bob partner yn angenrheidiol, nid yn unig o ran cynnwys Strategaeth Gweithgynhyrchu i Gymru, ond hefyd wrth gyflawni strategaeth o'r fath. Mae'n dda gennyf ddweud, felly, bod consensws barn gyffredinol rhyngom ni fel Llywodraeth, y Fforwm a'r Pwyllgor ynghylch y materion a'r anawsterau sy'n wynebu'r diwydiant gweithgynhyrchu a'r ymateb angenrheidiol iddynt. Edrychaf

ymlaen at adeiladu ar y consensws hwn wrth fwrw ymlaen â’n strategaeth a thrwy waith parhaus y Fforwm.

Wrth dderbyn argymhellion y Pwyllgor ynghylch gweithgynhyrchu, mae’n dda gennyf nodi fod y gwaith o weithredu ar lawer ohonynt eisoes ar y gweill, cyn cyhoeddi’r strategaeth yn ffurfiol.

Unwaith y caiff ei chyhoeddi, byddwn yn parhau i adolygu cyfeiriad ac effeithioldeb y strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru yng ngoleuni amgylchiadau cenedlaethol a rhyngwladol newidiol. Bydd yr adroddiad hwn, a’r dystiolaeth a gyflwynir wrth ei baratoi, yn darparu gwybodaeth werthfawr i’n helpu gyda’r broses honno. Diolchaf eto i’r pwyllgor am ei gefnogaeth wrth fynd i’r afael â’r agenda hon.

Nodaf isod fy ymatebion i argymhellion unigol yr Adroddiad.

**Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad:**

Mae’r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd casgliadau ac argymhellion ein hadroddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth gweithgynhyrchu derfynol i Gymru, pan gaiff ei chynhyrchu maes o law.

**Ymateb :** Derbyn mewn egwyddor.

Fel y nodais, Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru sy’n ymgymryd â’r gwaith o greu strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru. Corff o Bartneriaid yw’r Fforwm ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn aelod ohono. Ein barn yw fod ymgysylltiad a chyfraniad y diwydiant ei hun yn hanfodol i’r broses o greu a chyflawni strategaeth o’r fath, ac na ddylai’r Llywodraeth ei gorfodi. Yr wyf yn falch o dderbyn prif ffocws argymhellion y Pwyllgor, a mater i’r Fforwm, yn y pen draw, fydd eu cynnwys ai peidio.

**Goblygiadau Ariannol.** Dim.

Mae’r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 2.** Rydym yn cydymdeimlo â’r dadleuon o blaid ac yn erbyn cael strategaeth gweithgynhyrchu ar wahân ar adeg pan mae’r rhaniadau rhwng gwahanol sectorau o’r economi wedi mynd mor aneglur. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth gweithgynhyrchu sy’n cyd-fynd â

fframwaith cyffredinol i bolisi economaidd y dyfodol, a hwnnw wedi'i seilio'n gadarn ar agenda carbon isel.

**Ymateb :** Derbyn mewn egwyddor.

Mae fy sylwadau ynghylch Argymhelliad 1 yn berthnasol i'r argymhelliad hwn hefyd. Yr wyf yn llwyr gydnabod cyfeiriad y Pwyllgor at "aneglurder rhwng y gwahanol sectorau", a byddwn yn nodi fod cyfrifoldeb wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl y Fforwm i ymdrin yn unig â materion sydd o bryder ar draws yr is-sectorau gweithgynhyrchu, gyda strategaethau a chynlluniau is-sector i ymdrin â materion o natur mwy graenus (Awyrofod/Modurol/Electroneg). Yr wyf yn barod iawn i dderbyn y ffaith fod y Pwyllgor yn nodi ei bod yn bwysig i elwa i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r agenda carbon isel, ac yn cadarnhau fod hyn yn ganolog i feddylfryd y Cynulliad a'r Fforwm.

**Goblygiadau Ariannol**. Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynrychiolaeth o blith prif weithgynhyrchwyr Cymru'n cael ei hintegreiddio'n well i ffyrdd y Llywodraeth o feddwl a gweithio wrth ddatblygu polisi economaidd yn y dyfodol.

**Ymateb :** Derbyn.

Yr ydym eisoes yn gweithio'n glòs â'r gymuned weithgynhyrchu, drwy'r Fforwm yn ogystal â thrwy ymgysylltiad ehangach megis y Cyngor Partneriaeth Busnes a'r Uwchgynadleddau Economaidd. Ymgysylltiad clòs o'r fath arweiniodd at ddatblygu a gweithredu cynllun ProAct sydd, erbyn hyn, yn fawr ei glod, ac yr wyf, felly, yn cymeradwyo'r argymhelliad hwn yn bendant iawn. Sylweddolaf fod angen sefydlu gwell perthynas gyda phrif weithgynhyrchwyr, yn enwedig y rhai sydd â'u perchenogaeth, yn y pen draw, y tu allan i Gymru, ac mae gwaith eisoes ar y gweill i ymdrin â hyn. Yr wyf eisoes wedi ymrwymo y byddaf, fel rhan o Raglen Adnewyddu'r Economi, yn mynd ati mewn ffordd newydd i weithio'n agos â busnesau yng Nghymru, y cyrff sy'n eu cynrychioli a'n sefydliadau ymchwil i sicrhau y bydd polisïau'r Llywodraeth yn diwallu anghenion busnes i raddau gwell ac annog datblygu economi cryfach a mwy cynaliadwy. Yr ydym hefyd yn ceisio annog mwy o gyfranogaeth ar lefel cwmnïau unigol drwy Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru a thrwy fforymau sectorau unigol.

**Goblygiadau Ariannol.** Dim - bydd unrhyw gostau ychwanegol cynnal gweithgarwch rheoli perthynas o'r fath yn dod o gyllidebau adrannol cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fod yn flaengar yn annog ac yn cefnogi datblygu sector “gweithgynhyrchu gwyrdd” fel rhan o ymrwymiad ehangach i wneud yr economi werdd yn rhan o’i pholisi economaidd prif ffrwd yn hytrach na rhywbeth ychwanegol at y polisi hwnnw**.**

**Ymateb :** Derbyn.

Caiff datblygu sector gweithgynhyrchu gwyrdd ei weld fel rhan o nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi busnesau yng Nghymru yn y cyfnod o drawsnewid i gyflawni economi mwy cynaliadwy. Cyflawnir hyn drwy gyflwyno’r Strategaeth Swyddi Gwyrdd a fydd yn ganolog i bolisi economaidd, yn hytrach nag yn ychwanegol ato.

Mae’r Strategaeth Swyddi Gwyrdd yn allweddol o ran siapio a gyrru cyfleoedd busnes sy’n gysylltiedig â symudiad tuag at economi carbon isel, gwastraff isel. Y nod yw:

- manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y trawsnewid i economi gwyrdd neu garbon isel a helpu i greu swyddi newydd yn seiliedig ar y technolegau gwyrdd sy’n datblygu, a nwyddau a gwasanaethau carbon isel newydd.

- sicrhau fod busnesau yng Nghymru yn dod yn fwy cystadleuol a’u bod yn gallu mynd ati i wrthsefyll newidiadau economaidd y dyfodol yn well, drwy wneud swyddi presennol yn fwy cynaliadwy ac effeithlon o ran adnoddau.

Bydd yn sicrhau felly ei fod yn bodloni gofynion Datblygiad Cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol ein gwaith.

**Goblygiadau Ariannol.** Dim.

Mae’r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 5.** Rydym yn bryderus fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn siarad am gadwyni gwerth ers blynyddoedd heb i lawer o gynnydd gael ei wneud. Rydym yn argymell felly y dylai’r strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru hyrwyddo datblygu sylfaen gweithgynhyrchu yng Nghymru y gall gweithgareddau busnes eraill cynhenid dyfu ohoni fel rhan o ymdrech ddygn i annog gweithgynhyrchwyr i gynhyrchu nwyddau sy’n uwch i fyny’r gadwyn gwerth.

**Ymateb :** Derbyn.

Yr wyf yn derbyn ffocws yr argymhelliad hwn yn llwyr gan nodi, ar yr hyn pryd, yr anawsterau cynhenid o sefydlu cadwyni gwerth integredig o fewn sylfaen economaidd gymharol fach. Oherwydd hyn, credaf yn bendant iawn y dylid cysylltu’r camau a gymerwn yng Nghymru, lle bo hynny’n ymarferol bosibl, gyda’r camau a gymerir i gefnogi’r sector gweithgynhyrchu ledled y DU. Mae gennyf ddisgwyliadau pendant y bydd y strategaeth gweithgynhyrchu yn canolbwyntio ar bwysigrwydd

sector gweithgynhyrchu sy'n Ychwanegu Gwerth Sylweddol, gyda phwyslais ar bwysigrwydd sgiliau, Ymchwil a Datblygu a gweithgareddau rheoli gwybodaeth.

**Goblygiadau Ariannol**. Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai cymorth busnes Llywodraeth Cymru ganolbwyntio mwy yn y dyfodol ar ansawdd yn hytrach na niferoedd, hynny yw, ar gwmnïau sydd â photensial twf uchel yn hytrach nag ar sefydlu nifer fawr o gwmnïau newydd, ac y dylai'r polisi hwn gael ei ailddatgan yn y strategaeth gweithgynhyrchu.

**Ymateb :** Derbyn.

Fel yn achos yr argymhelliad blaenorol, deallaf y bydd rhoi pwyslais ar ansawdd ac ychwanegu gwerth sylweddol yn elfen allweddol o strategaeth y Fforwm. Mae natur cefnogaeth y Cynulliad ar gyfer busnes wedi bod yn symud yn gynyddol o 'grantiau' i 'fuddsoddi', ac yr ydym wedi sefydlu dulliau i'n galluogi i adnabod cyfleoedd uwch ar gyfer twf ac i ymrwymo adnoddau'n unol â hynny.

Dywedais y bydd y 21ain Ganrif yng Nghymru yn ganrif o uwch-dechnoleg, ansawdd uchel a chyfleoedd am swyddi hyfedr. Bydd cyhoeddiad ynghylch Rhaglen Adnewyddu'r Economi, sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin eleni, yn rhoi rhagor o fanylion am ein cynlluniau i fwrw ymlaen â'r agenda hon.

**Goblygiadau Ariannol.** Dim **-** er y byddwn yn parhau i addasu'r cyllidebau cyfredol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 7.**
Rydym yn argymell y dylai diwydiannau Cymru weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y cynghorau sgiliau sector dros wyddoniaeth, peirianneg a gweithgynhyrchu, a chydag addysg bellach ac uwch i ddatblygu cynllun gweithredu i sicrhau bod y strwythurau sgiliau, cymwysterau a phrentisiaethau yn adlewyrchu gofynion technolegau newydd, cyfnewidiol y sector gweithgynhyrchu byd-eang.

**Ymateb :** Derbyn mewn egwyddor.

Derbyniaf natur gyffredinol yr argymhelliad. Mae gennym gytundebau gyda Semta, a Chynghorau Sgiliau Sector eraill sy'n cwmpasu'r sector gweithgynhyrchu. Cydnabyddir bod angen i Gymru ddynodi'n fanylach y meysydd gweithgynhyrchu arbenigol uwch-dechnoleg a manyleb uwch lle byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion tra, ar yr un pryd, yn cynnal yr hyblygrwydd i ymateb i newidiadau byd-eang. Rhaid i'r Cynllun Gweithredu arfaethedig gyflwyno atebion radical o ran sgiliau a fydd yn cyflwyno cymwysterau galwedigaethol dan ofal diwydiant, a'r rheiny o

safon fyd-eang, a fydd yn galluogi Cymru i gystadlu ar lwyfan y byd i weithgynhyrchu atebion ynni cynaliadwy.

Mae'r Gronfa Blaenoriaethau Sector beilot eisoes yn cynnig y potensial i Gynghorau Sgiliau Sector i ymateb i flaenoriaethu'r Strategaeth Cymwysterau Sector yn y sector gweithgynhyrchu.

Nodaf fod yr adroddiad yn tanlinellu'r angen i feithrin dawn arweinyddiaeth ieuenctid o fewn y sector gweithgynhyrchu. Mae ein cynllun Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn cynnig cefnogaeth hyblyg y gellir ei theilwra i anghenion y sector trwy'r Cyngor Sgiliau Sector, cyn belled ag y bo galw o du busnesau.

**Goblygiadau Ariannol.** Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru gael ei seilio ar ddatblygu atebion ynni cynaliadwy er mwyn i weithgynhyrchwyr Cymru fod yn gystadleuol yn y tymor hir. Ar ben hynny, rydym yn argymell y dylai Cymru geisio anelu at weithgynhyrchu rhagor o'r nwyddau sy'n bwydo diwydiant ynni sy'n gynaliadwy ei hun, megis cynhyrchion effeithlon o ran ynni a charbon isel.

**Ymateb :** Derbyn mewn egwyddor.

Mae fy ymateb wedi'i gynnwys, i raddau helaeth, yn fy ymateb i Argymhelliad 4. Drwy ailddagan fod ein strategaeth Swyddi Gwyrdd yn greiddiol, yn hytrach nag yn ymylol i'n polisi economaidd, byddem yn ceisio annog lleihau carbon yn y diwydiant gweithgynhyrchu drwyddo draw.

**Goblygiadau Ariannol.** Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai'r strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru gynnwys targedau i leihau'r gyfran o weithgynhyrchion sy'n cael eu cludo ar y ffyrdd fel rhan o strategaeth ehangach i roi blaenoriaeth uwch a rhagor o adnoddau i annog newid y modd o gludo nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd.

**Ymateb :** Gwrthod.

Yr wyf yn gwrthod galwad y Pwyllgor i gyflwyno targedau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn y strategaeth gweithgynhyrchu. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth modern a chynaliadwy sy'n gallu cefnogi'r broses o adnewyddu ein heconomi a helpu i ddatblygu cymdeithas mwy cynhwysol. Yr ydym hefyd yn ymrwymedig i roi trafnidiaeth ar lwybr lleihau carbon, fel y gall chwarae rhan lawn yn y gwaith o wynebu her y newid yn yr hinsawdd.

Yr ydym yn sylweddoli beth yw'r sialensiau sydd ynghlwm wrth y gwaith o gyflawni rhwydwaith trafnidiaeth carbon isel i gefnogi datblygiad economaidd a chymdeithasol. Bydd yn rhaid wrth ddull cytbwys a chydlynus o weithredu, sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd polisi.

Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, a gaiff ei gyhoeddi cyn bo hir, yn gosod allan nifer o ymrwymiadau a fydd yn gwella cynaliadwyedd y broses o symud nwyddau, gan gynnwys newid y modd o gludo nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd, lle gellir cyflawni manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Byddwn yn monitro ein cynnydd i wneud y broses o symud nwyddau yn fwy cynaliadwy ac yn adrodd arno.

Mae'r ymrwymiadau hyn yn rhan o'r agwedd ehangach a mwy cynaliadwy tuag at gynllun trafnidiaeth a osodwyd allan gennym yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**. Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell fel a ganlyn:

**Argymhelliad 10**. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth gweithgynhyrchu, at ddibenion ymgynghori, ar gyfer y tymor canolig i hir. Dylai datblygu a sefydlu diwydiannau gweithgynhyrchu mwy cynaliadwy, â gwerth uwch, mwy arloesol, sy'n cynhyrchu llai o garbon, fod yn ganolog i'r strategaeth, a dylai buddsoddiad cyhoeddus gael ei dargedu yn unol â'r amcanion hynny er mwyn "ymyrryd yn greadigol".

**Ymateb :** Derbyn mewn egwyddor.

Yr wyf yn falch o dderbyn argymhelliad olaf y Pwyllgor, yn amodol ar nodi eto y byddwn yn disgwyl i'r strategaeth gweithgynhyrchu gael ei chyhoeddi, fel dogfen bartneriaeth, gan y Fforwm yn hytrach na chan Llywodraeth y Cynulliad ac, fel y cyfryw, ni fyddai'n destun prosesau ymgynghori ffurfiol.

**Goblygiadau Ariannol**. Dim.